**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C26/0216/30/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **07/04/2026** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Aberdaron** |
| **Ward:** | **Pen draw Llŷn** |
| **Bwriad:** | **Cais llawn i newid defnydd cae amaethyddol i gynnwys 10 llain carafán teithiol tymhorol yn ychwanegol i'r prif safle ynghyd a chodi adeilad toiledau/cawodydd, gwelliannau tirlunio meddal, creu mynedfa/allanfa bwriedig a gosod offer trin** |
| **Lleoliad:** | **Parc Carafanau, Tir Glyn, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DA** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **GWRTHOD** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Dyma gais llawn yn ymwneud ag ymestyn safle carafanau presennol i dir amaethyddol gerllaw. Bwriedir creu lleiniau ffurfiol ychwanegol i safle presennol ar gyfer 10 carafán deithiol dymhorol ynghyd a chodi adeilad toiledau/cawodydd, gwelliannau tirlunio meddal, creu mynedfa/allanfa bwriedig a gosod offer trin. Byddai tirlunio ar ffurf plannu coedlan fechan wrth ochr isaf yr ail fynedfa i'r cae yn rhan ddeheuol y safle tra byddai gwrych newydd i'w blannu tu cefn i'r adeilad toiled arfaethedig. Mae gwrych presennol ar hyd ffin y cae gyda'r ffordd gyhoeddus gyfochrog a'r bwriad fyddai rheoli'r gwrych yma a chreu ardal o wair hir rhwng y gwrych a lleoliad y 10 llain newydd o fewn y cae. Mi fyddai'r lleiniau unigol yn mesur 3.5m x 7m ac wedi eu creu trwy dyrchu a gosod is haen gydag wyneb o lechi mân o fewn ffrâm bren.

1.2 Mae caniatâd cynllunio ar gyfer safle ar wahân i 39 carafanau teithiol ar gaeau i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain o safle'r cais. Gwelir hefyd fod llecyn i'r gogledd o safle cais presennol wedi ei ganiatáu o dan gyfeirnod C16/0878/30/LL i storio hyd at 15 o garafanau teithiol trwy gydol y flwyddyn. Mae gweddill y safle yn cynnwys adeiladau amaethyddol, adeiladau allanol a dau dŷ preswyl.

1.3 Mae'r safle cyfan wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ac o fewn AHNE Llŷn. Mae hefyd wedi ei leoli oddi fewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli, ac yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 2/3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Gwasanaethir y safle gan ffordd di ddosbarth sy'n rhedeg yn gyfochrog a'r fferm a'r safle carafanau presennol. Mi fyddai safle'r datblygiad yn rhannol oddi mewn i safle bywyd gwyllt Porth Meudwy. Gwelir fod gwrychoedd sefydledig ar rai o ymylon y safle yn arbennig felly'r ffin orllewinol gyda'r ffordd gyhoeddus. Mae'r tir ble lleolir y datblygiad yn dir amaethyddol presennol sydd wedi ei gynnwys o fewn dosbarth 3a yn ôl mapiau Llywodraeth Cymru. Mae tiroedd 3a ynghyd a thiroedd dosbarth 1 a 3 yn cael eu nodi fel y tiroedd amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ac yn yr achos yma fe'i nodir fel "tir amaethyddol o ansawdd da i gymedrol".

1.4 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan fod y safle yn fwy o ran maint na'r hyn a ellir ei benderfynu trwy'r drefn ddirprwyedig. Nodir fod y bwriad yma wedi bod yn destun cais cynllunio o dan gyfeirnod C24/0413/30/LL a gafodd ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd cyn iddo gyrraedd Pwyllgor Cynllunio ar y 30.09.2024.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt

PCYFF 1: Ffiniau datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PS 14: Yr economi ymwelwyr

TWR 5: Safleoedd carafanau teithiol, gwersylla a llety gwersylla amgen dros dro

PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 1: Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

AMG 5: Cadwraeth bioamrywiaeth leol

AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

Hefyd yn berthnasol yn yr achos yma mae'r canlynol:

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

Canllawiau Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac erydu arfordirol.

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C24/0413/30/LL - Cais llawn i newid defnydd cae amaethyddol i gynnwys 10 llain carafán deithiol dymhorol yn ychwanegol i'r prif safle ynghyd a chodi adeilad toiledau/cawodydd, gwelliannau tirlunio meddal, creu mynedfa/allanfa bwriedi a gosod offer trin - Tynnu'n ôl - 30-09-2024

Cais yma wedi cael ei dynnu yn ôl cyn y Pwyllgor gydag argymhelliad i wrthod.

3.2 Cais C16/0879/30/LL: Cynyddu nifer unedau teithiol o 30 i 39 heb gydymffurfio ag amod 2 ar ganiatâd rhif 2/10/134A ynghyd ag ymestyn y bloc toiledau - Caniatawyd 17/11/16

3.3 Cais C16/0878/30/LL: Cais i barhau defnyddio tir ar gyfer storio carafanau teithiol heb gydymffurfio ac amod rhif 2 ar ganiatâd rhif 9900073FUL10 (cyfyngu cyfnod storio carafanau rhwng 1af Ebrill a 30 o Fedi mewn unrhyw flwyddyn - Caniatawyd 18/10/16

3.4 Cais 9900073FUL10 – Storio carafanau teithiol – Caniatawyd 17/01/00

3.5 Cais 2/10/134A: Safle i 30 o unedau teithiol – Caniatawyd 28/03/96

3.6 Cais 2/10/134C: Adeiladu adeilad cyfleusterau toiledau ac ymolchi ar gyfer carafanau teithiol – Caniatawyd 09/08/94

3.7 Ymholiad cyn cyflwyno cais Y21/0745 - Cynyddu nifer y carafanau teithiol o 39 i 49 ar gae gerllaw, gyda bloc toiledau ychwanegol, er mwyn cwrdd â'r cynnydd mewn gofyn am leiniau carafanau ychwanegol, ac ansicrwydd ynglŷn â'r incwm a geir o'r da byw oherwydd costau rheoleiddio ychwanegol i'w ddisgwyl. Ymatebwyd i'r ymholiad yma gan gyfeirio at bolisïau perthnasol a materion perthnasol fyddai angen eu hystyried. Dyma'r casgliad wrth grynhoi'r ymateb:

*"Yn gyffredinol, ystyrir bod y cynnig hwn yn cyd-fynd yn eithaf da â strategaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer hyrwyddo twf cynaliadwy'r economi wledig fodd bynnag mae pryder ynghylch cynaliadwyedd ehangu datblygiad twristiaeth mewn lleoliad cefn gwlad ynysig fel hon ac fe ddylai unrhyw gais cynllunio egluro'r pa ystyriaeth a roddwyd i gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd wrth lunio'r cynnig.*

*Yn ogystal, wrth ystyried sensitifrwydd yr amgylchedd lleol, fe fydd llwyddiant unrhyw gais gynllunio'n ddibynnol ar sicrhau bod effaith ffisegol y datblygiad yn dderbyniol. Y prif fater i'w ystyried fel rhan o unrhyw gais cynllunio fyddai'r effaith ar y dirwedd. Fe fydd yn gwbl hanfodol darbwyllo'r Awdurdod Cynllunio y gellir cymhathu'r carafanau'n hawdd i'r dirwedd mewn ffordd nad yw'n niweidio ansawdd gweledol y dirwedd ddynodedig".*

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Priffyrdd: | Mae pryderon wedi codi mewn perthynas â'r brif fynedfa i'r safle arfaethedig. Yn benodol, ystyrir bod potensial i fwd a deunydd rhydd gael eu cludo i'r briffordd gyhoeddus, ynghyd â'r posibilrwydd o ddifrod i ymylon y ffordd o ganlyniad i'r cynnydd mewn traffig fyddai'n defnyddio'r fynedfa.<br><br>Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ac er budd diogelwch y briffordd, gofynnwn i'r ymgeisydd uwchraddio'r fynedfa i safon briodol a boddhaol a darparu manylion y gwaith arfaethedig.<br><br>O ystyried y gwelliannau a ofynnir i'r brif fynedfa, gofynnwn hefyd i'r ail fynedfa gael ei chyfyngu i ddefnydd cerddwyr a cherbydau'r gwasanaethau brys yn unig. Bydd hyn yn helpu i reoli symudiadau traffig i mewn ac allan o'r |

| | |
|---|---|
| | safle, gan sicrhau bod pob traffig arferol yn defnyddio'r brif fynedfa sydd wedi'i huwchraddio i safon. Cadarnhaf fod y Gwasanaeth Trafnidiaeth yn gwrthwynebu'r cais fel y'i cyflwynwyd ar hyn o bryd, er mwyn gallu derbyn a gwerthuso gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig. |
| Dŵr Cymru: | Heb ymateb |
| Uned Draenio Tir: | Mae'n ymddangos fod safle'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd 2/3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Awgrymir fod y datblygwr yn ystyried symud y ddwy lain isaf fel eu bod tu hwnt i ffin y parth llifogydd yma. Fel arall, yn unol ag adran 6.1 TAN 15 mae'n ofynnol i'r datblygwr gyflwyno Asesiad Risg Llifogydd (FCA) sy'n dangos nad yw'r datblygiad arfaethedig mewn perygl annerbyniol o lifogydd dwr wyneb, a bod mesurau addas wedi'u cynnwys i gynyddu gwydnwch y datblygiad i lifogydd. |

Yn dilyn adolygiad o'r cyflwyniad, nodwyd **nad oes unrhyw strategaeth draenio** wedi'i darparu fel rhan o ddogfennaeth y cais. Mae darparu strategaeth draenio yn ofynnol yn unol â nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol. O ganlyniad, nid yw'n bosibl asesu cydymffurfiaeth â safonau draenio cynaliadwy cenedlaethol, na phenderfynu sut y bydd dŵr ffo wyneb yn cael ei reoli ar y safle.

**O dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rhaid i unrhyw ddatblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau neu ardal adeiladu o 100m² neu fwy cael cymeradwyaeth y SAB cyn adeiladu**.

Gweler isod grynodeb o hierarchaeth cyrchfannau dŵr wyneb SDC a'r wybodaeth sydd ei hangen ar y cam hwn yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewisir. Rhaid darparu tystiolaeth sy'n diystyru opsiynau blaenoriaeth uwch cyn y gellir derbyn blaenoriaeth is.

**Hierarchaeth Cyrchfannau Dŵr Wyneb SDC**

**Blaenoriaeth 1: Casglu Dŵr Glaw**

Oherwydd natur y datblygiad, rydym yn cydnabod nad yw casglu dŵr glaw llawn yn debygol o ddarparu ar gyfer holl ddŵr ffo'r safle. Fodd bynnag, os oes potensial i ailddefnyddio dŵr glaw yn rhannol—megis trwy osod casgenni dŵr wrth bibellau glaw—rydym yn annog eu

cynnwys i gefnogi defnyddio dŵr glaw a gasglwyd at ddibenion anyfedig.

**Blaenoriaeth 2: Treiddiad**

• Rhaid cynnal profion treiddio yn unol â BRE365. Mae angen adroddiad prawf treiddiad arnom sy'n dangos stampiau amser ar gyfer tri phrawf a gynhaliwyd mewn pwll prawf wedi'i leoli lle bydd y ffos socian arfaethedig. Rhaid i ddyfnder y pwll adlewyrchu'r ffos socian arfaethedig a'i lenwi â digon o ddŵr i adlewyrchu amodau. Dylid cynnal y tri phrawf yn agos at ei gilydd.

• Bydd angen cynllun lleoliad pwll prawf a lluniau o unrhyw byllau prawf.

• Yn ogystal, mae angen monitro dŵr daear. Rhaid cynnal cliriad o leiaf 1 metr rhwng gwaelod y ffos socian a'r lefel dŵr daear uchaf i atal mynediad, a allai leihau capasiti'r system.

**Blaenoriaeth 3: Cwrs Dŵr**

• Os profir nad yw ymdreiddiad yn ymarferol, gellir ystyried rhyddhau i gwrs dŵr. Rhaid i hyn fod ar gyfraddau dŵr ffo maes glas, gan olygu bod angen mesurau gwanhau a rheoli llif. Os nad oes cwrs dŵr yn rhesymol hygyrch, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 4.

**Blaenoriaeth 4: System Dŵr Wyneb**

• Rhaid cytuno ar gyfraddau rhyddhau gyda pherchennog y system. Os nad oes system dŵr wyneb o fewn pellter rhesymol, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 5.

**Blaenoriaeth 5: Carthffos Gyfun**

• Rhaid darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gyfiawnhau gwrthod pob opsiwn blaenoriaeth uwch. Oherwydd cyfyngiadau capasiti, mae Dŵr Cymru yn amharod i dderbyn cysylltiadau dŵr wyneb.

• Os oes cysylltiad presennol (e.e., mae eiddo yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu), rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y datblygiad newydd yn gwella cyfradd llif a chyfaint.
• Os nad oes cysylltiad presennol, ni fydd Dŵr Cymru yn debygol o dderbyn un newydd.

• Os yw'r cynnig yn cynnwys cysylltu â system Dŵr Cymru, rydym yn cynghori'n gryf i gysylltu â nhw cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu'r cais.

**Oherwydd y diffyg tystiolaeth a ddarparwyd, rydym yn annog yr ymgeisydd i gysylltu gyda'r CCS i gael trafodaeth cyn ymgeisio. Hyd nes y darperir mwy o wybodaeth a thystiolaeth, rydym yn cynnig gwrthwynebiad dros dro.**

Ymddengys bod y safle datblygu arfaethedig wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd 2/3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Rydym yn argymell bod y datblygwr yn ystyried symud y ddau lain isaf i ardal y tu hwnt i ffin y parth llifogydd.

Fel arall, yn unol â NCT 15 adran 6.1, mae'n ofynnol i'r datblygwr gyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) sy'n dangos nad yw'r datblygiad arfaethedig mewn perygl annerbyniol o lifogydd o ffynonellau dŵr wyneb, a bod mesurau addas wedi'u cynnwys i gynyddu mesurau atal a gwrthsefyll y datblygiad i lifogydd.

Yn dilyn adolygiad o'r cyflwyniad, nodir nad oes **unrhyw strategaeth ddraenio** wedi'i darparu fel rhan o ddogfennaeth y cais. Mae angen darparu strategaeth ddraenio yn unol â nodyn cyngor technegol (NCT) 15: datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol. O ganlyniad, nid yw'n bosibl asesu cydymffurfiaeth â safonau draenio cynaliadwy cenedlaethol, neu benderfynu sut y bydd dŵr ffo wyneb yn cael ei reoli ar y safle.

**O dan Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rhaid i unrhyw ddatblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o anheddau neu arwynebedd adeiladu o 100m² neu fwy gael cymeradwyaeth SAB cyn ei adeiladu.**

Gweler isod grynodeb o hierarchaeth cyrchfan dŵr wyneb SuDS a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar y cam hwn yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewiswyd. Rhaid darparu tystiolaeth sy'n diystyru opsiynau blaenoriaeth uwch cyn y gellir derbyn blaenoriaeth is.

**Hierarchaeth Cyrchfan Dŵr Wyneb SuDS**

**Blaenoriaeth 1: Casglu Dŵr Glaw**

• Oherwydd natur y datblygiad, rydym yn cydnabod bod cynaeafu dŵr glaw llawn yn annhebygol o ddarparu ar gyfer holl ddŵr ffo'r safle. Fodd bynnag, os oes potensial ar gyfer ailddefnyddio dŵr glaw yn rhannol - megis trwy osod casgen dŵr mewn landerau - rydym yn annog eu cynnwys

i gefnogi'r defnydd o ddŵr glaw wedi'i gynaeafu at ddibenion nad ydynt yn yfadwy.

**Blaenoriaeth 2: Treiddiad**

• Rhaid cynnal profion treiddiad yn unol â BRE365. Mae angen adroddiad prawf treiddiad arnom sy'n dangos stampiau amser ar gyfer tri phrawf a gynhaliwyd mewn pwll prawf wedi'i leoli lle bydd y ffos socian arfaethedig. Rhaid i ddyfnder y pwll adlewyrchu'r suddfan arfaethedig a'i lenwi â digon o ddŵr i adlewyrchu amodau. Dylid cynnal y tri phrawf yn agos at ei gilydd.

• Bydd angen cynllun lleoliad pwll prawf a lluniau o unrhyw byllau prawf.

• Yn ogystal, mae angen monitro dŵr daear. Rhaid cynnal cliriad o leiaf 1 metr rhwng gwaelod y suddfan a'r lefel dŵr daear uchaf i atal mynediad, a allai leihau capasiti'r system.

**Blaenoriaeth 3: Cwrs dŵr**

• Os profir nad yw ymdreiddiad yn ymarferol, gellir ystyried gollyngiad i gwrs dŵr. Rhaid i hyn fod ar gyfraddau dŵr ffo tir glas, gan olygu bod angen mesurau gwanhau a rheoli llif. Os nad oes cwrs dŵr yn rhesymol hygyrch, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 4.

**Blaenoriaeth 4: System Dŵr Wyneb**

• Rhaid cytuno ar gyfraddau rhyddhau gyda pherchennog y system. Os nad oes carthffos dŵr wyneb o fewn pellter rhesymol, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 5.

**Blaenoriaeth 5: Carthffos Gyfun**

• Rhaid darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gyfiawnhau gwrthod pob opsiwn blaenoriaeth uwch. Oherwydd cyfyngiadau capasiti, mae Dŵr Cymru yn amharod i dderbyn cysylltiadau dŵr wyneb.

• Os oes cysylltiad presennol (e.e., mae eiddo yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu), rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y datblygiad newydd yn gwella cyfradd llif a chyfaint.

• Os nad oes cysylltiad presennol, mae'n annhebygol y bydd Dŵr Cymru yn derbyn un newydd.

• Os yw'r cynnig yn cynnwys cysylltu â system Dŵr Cymru, rydym yn cynghori'n gryf i gysylltu â nhw cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu'r cais.

**Oherwydd y diffyg tystiolaeth a ddarparwyd, rydym yn annog yr ymgeisydd yn gryf i gysylltu gyda'r CCS i gael trafodaeth cyn ymgeisio. Hyd nes y darperir mwy o wybodaeth a thystiolaeth, rydym yn cynnig gwrthwynebiad dros dro.**

Uned Trwyddedu:

Bydd y datblygiad yn amodol ar y Ddeddfwriaeth isod o agwedd Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân a darpariaeth Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn:

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ag Ati 1974

Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960

Safonau Model 1983 - Carafanau Teithiol / Pebyll

Rhaid i'r datblygiad gydymffurfio yn llawn gydag amodau trwydded

www.gwynedd.llyw.cymru/trwyddedcarafanau

Cais am Drwydded Safle yn dilyn caniatáu cais cynllunio

Dymunwn fod y wybodaeth yma yn ei adrodd ar y caniatâd cynllunio petai'r cais yn ei ganiatáu:

'Yn dilyn unrhyw gais cynllunio sydd yn ei ganiatáu mewn perthynas â maes carafanau neu bebyll o dan y Deddfau 1960 & 1936, bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais i ddiwygio'r drwydded safle a chyflwyno cynllun manwl graddfa 1:500 o'r safle i'r Gwasanaeth Trwyddedu. I drafod ymhellach, gellir cysylltu gyda Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu, Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru.

Ffin – Gwrychoedd

Mae amodau trwydded yn argymell bod 3 medr o led oddi wrth unrhyw ffin / gwrych.

Cerbydau Argyfwng – Safonau Model 1983 – Amod 2.3

Dylai cerbydau argyfwng gael mynediad priodol, o fewn i 90 medr o unrhyw uned ar y safle ar bob achlysur yn unol ag amodau trwydded. Nid oes manylion o fewn y cais yn

cadarnhau a manylu'r pellter oddi wrth bob uned i sicrhau mynediad priodol i gerbydau argyfwng.

Cyfleusterau toiled, ymolchi, cawodydd, ystafell ymolchi ar gyfer anabl

Nid oes gwybodaeth wedi ei arddangos o fewn y cynllun, yn nodi'r ddarpariaeth anabl (toiled, baswn ymolchi, cawod) o fewn y cais cynllunio.

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Hyderwn y bydd ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar faterion tŷ allan i amodau trwydded (Safonau Model 1983).

Parcio Ceir

Rhaid arddangos y man parcio.

Bydd y datblygiad yn destun y Ddeddfwriaeth a nodir isod yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân a darpariaethau Iechyd Cyhoeddus fel a ganlyn:

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974

Deddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960

Safonau Model 1983 - Carafanau / Pebyll Teithiol

Rhaid i’r datblygiad gydymffurfio yn llawn gydag amodau trwydded

www.gwynedd.llyw.cymru/trwyddedcarafanau

Cais am Drwydded Safle yn dilyn caniatáu cais cynllunio

Dymunwn fod y wybodaeth hon yn cael ei hadrodd ar y caniatâd cynllunio petai’r cais yn llwyddiannus:

‘Yn dilyn unrhyw gais cynllunio sydd yn ei ganiatáu mewn perthynas â maes carafanau neu bebyll o dan Ddeddfau 1960 ac 1936, bydd angen i’r ymgeisydd wneud cais am drwydded safle a chyflwyno cynllun manwl graddfa 1:500 o’r safle i’r Gwasanaeth Trwyddedu. I drafod ymhellach, cysylltwch â'r Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu, Rheoli Llygredd a'r Gwasanaeth Trwyddedu, Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru’

Ffiniau - Gwrychoedd

Mae'r amodau trwyddedu yn argymell bod carafanau yn cael eu lleoli 3 metr i ffwrdd o unrhyw ffin / gwrych.

| | |
| --- | --- |
| | Cerbydau’r Gwasanaethau Brys - Safonau Enghreifftiol 1983 - Amod 2.3<br><br>Dylai cerbydau’r gwasanaethau brys gael mynediad priodol o fewn 90 medr o unrhyw uned ar y safle ar bob achlysur yn unol ag amodau trwydded. Nid oes manylion o fewn y cynllun safle yn cadarnhau pellter y mynediad i gerbydau'r gwasanaethau brys i bob uned mewn unrhyw argyfwng.<br><br>Toiledau, cyfleusterau golchi, cawodydd, darpariaeth i bobl anabl<br><br>Nid oes gwybodaeth wedi ei harddangos yn y cynllun safle, yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer pobl anabl (toiled, basn ymolchi, cawod) o fewn y cais cynllunio.<br><br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRS)<br><br>Hyderwn yr ymgynghorir â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar faterion nad ydynt yn rhan o Safonau Model 1983).<br><br>Parcio<br><br>Rhaid dangos lleoliad y man parcio hefyd. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae’r cais yma ar gyfer newid defnydd cae amaethyddol i gynnwys 10 llain carafán deithiol dymhorol.<br><br>Mae’r ymgeisydd wedi cynnwys datganiad seilwaith gwyrdd a PEA gan Cambrian Ecology.<br><br>Mae’r gwelliannau yn addas ar gyfer raddfa’r datblygiad ac wedi cynnwys o fewn y dyluniai cynllunio, nid oes gennaf unrhyw bryderon ecolegol. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Mae gennym bryderon ynghylch y cais fel y’i cyflwynwyd oherwydd bod gwybodaeth annigonol wedi cael ei darparu er mwyn cefnogi'r cynnig. I oresgyn y pryderon hyn, dylech ofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd ynghylch safleoedd gwarchodedig. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu, byddwn yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir rhagor o fanylion isod.<br><br>**Safleoedd Gwarchodedig**<br><br>**Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)**<br><br>Mae'r safle wedi'i leoli tua 560m o ACA Clogwyni Pen Llyn a 630m o ACA Pen Llyn a'r Sarnau ac ACA Gorllewin Cymru Forol. Mae ein cofnodion yn dangos bod cwrs dŵr |

bach yn rhedeg ar ffin llinell goch ddwyreiniol safle'r cais ac wedi'i gysylltu'n hydrolegol â'r safleoedd uchod.

Draeniad Budr

Mae gennym bryderon na ellir diystyru effaith sylweddol debygol o’r datblygiad arfaethedig ar y safleoedd ACA. Ein cyngor ni yw eich bod yn cyflwyno rhagor o wybodaeth er mwyn 2 of 6 gallu ystyried yr effeithiau posibl yn ddigonol ar nodweddion y safleoedd gwarchodedig ac, yn benodol, i alluogi eich awdurdod i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y’u diwygiwyd).

Nodwn fod y datblygiad yn cynnig gosod system trin carthion preifat (STCP). Fodd bynnag, mae’r dull gollwng arfaethedig yn aneglur ar hyn o bryd ac mae angen eglurhad gan yr ymgeisydd. Rydym yn argymell bod yr ymgeisydd yn dangos nad yw gollwng i’r ddaear yn hyfyw.

Os cynigir gollwng i’r ddaear, dylai’r ymgeisydd ddarparu manylion pellach ar y canlynol:

- Union leoliad y pwynt gollwng / y cae draenio
- Canlyniadau profion mandylledd (percoliad)
- Dimensiynau a dyluniad y cae draenio arfaethedig, er mwyn cadarnhau bod amodau’r ddaear yn addas ar gyfer cae draenio

Nodir hefyd fod ffynnon wedi’i nodi ar un o’r cynlluniau a gyflwynwyd. Ni ddylai’r cae draenio gael ei leoli’n agos at y nodwedd hon, ac mae angen cadarnhad o bellteroedd gwahanu priodol.

Pe bai gollwng i gwrs dŵr yn cael ei gyfiawnhau, bydd angen nodi union leoliad y pwynt gollwng a’i ddangos yn glir ar fap. Yn ogystal, gan fod y cwrs dŵr derbyniol wedi’i ddosbarthu fel bach/anhysbys, byddai angen gwybodaeth bellach i ddangos bod ganddo gapasiti digonol i ymdopi â gollwng o’r natur a’r cyfaint hon, pe bai’r cynllun yn cynnig gollwng i’r cwrs dŵr.

Yn ogystal, nid oes unrhyw wybodaeth yn dangos sut na ble y caiff gwastraff o’r carafanau teithio ei waredu. Nid yw gorsafoedd trin carthion preifat (STCP) yn addas i drin gwastraff cemegol o garafanau. Rhaid i Uned Gwaredu Cemegol (UGC) ddraenio i danc seliedig neu bydew sych (*cesspit*), gan fod natur wenwynig yr efflwnt yn golygu na ellir ei ollwng i’r ddaear nac i gwrs dŵr. Rydym yn

argymell yn gryf bod tanc seliedig / garthpwll o'r fath yn cael ei gyfarparu â larwm lefel i atal gorlenwi.

Gall gweithiau trin carthffosiaeth fach sy'n bodloni meini prawf penodol gael eu cofrestru fel eithriedig. Mae canllaw cam wrth gam i gofrestru eithriad ar gael ar ein gwefan.

Os nad yw'r system trin carthffosiaeth breifat yn gymwys i gael eithriad, bydd angen i'r Ymgeisydd wneud cais am drwydded amgylcheddol. Ceir rhagor o fanylion ar hyn yma. Os bydd angen trwydded, efallai y bydd angen gwybodaeth bellach fel rhan o'r broses ymgeisio honno. Felly, cynghorir yr Ymgeisydd i gysylltu â ni am gyngor cyn-ymgeisio cyn gynted â phosibl, er mwyn ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir a gofynion y drwydded. Ceir rhagor o fanylion ar sut i gael mynediad at ein gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio yma.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), rhaid i'ch awdurdod, cyn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer prosiect sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ACA / AGA / safle Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r 3 of 6 prosiect i'r safle hwnnw yng ngoleuni ei amcanion cadwraeth. Rhaid i chi, at ddibenion yr asesiad, ymgynghori â CNC ac ystyried unrhyw sylwadau a wnawn o fewn yr amser rhesymol a nodir gennych. Yn absenoldeb yr asesiad hwnnw, ni all CNC gynghori na fyddai'r cynigion yn arwain at effaith niweidiol ar yr ACA / AGA / safle Ramsar.

**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)**

Mae safle'r cais wedi'i gysylltu'n hydrolegol â SoDdGA Glannau Aberdaron, sydd wedi'i leoli 560m o safle'r cais.

Rydym o'r farn bod gan y datblygiad arfaethedig y potensial i ddifrodi SoDdGA Glannau Aberdaron. Cyn belled â bod y llwybrau effaith y cyfeirir atynt uchod ar gyfer yr ardal cadwraeth arbennig (ACA) yn cael sylw digonol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y bydd nodweddion hysbysedig y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig hefyd yn cael eu diogelu'n ddigonol.

**Tirwedd**

Mae’r datblygiad wedi’i leoli o fewn Tirwedd Genedlaethol Llŷn (AHNE). Nodwn gyflwyno Asesiad Tirwedd a Gweledol gan Dirlun Barr Associates, dyddiedig Mai 2024. Fe’ch cyfeirir at eich Swyddog Tirwedd fewnol am gyngor ar effeithiau dirweddol a gweledol. Os oes angen cyngor pellach, yna ail-gynghorwch â ni.

**Rhywogaethau Gwarchodedig**

Nodwn y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi’r cais uchod (Biodiversity Enhancement Plan and Green Infrastructure Statement gan Cambrian Ecology Ltd dyddiedig 07 Mai 2024). Rydym yn croesawu’r gwelliannau a gynigir ac yn argymell eich bod yn trafod yr angen i sicrhau rhagor o fesurau neu fesurau osgoi gyda’ch cynghorydd ecolegol mewnol.

Adran Tân:

Nid oes gan yr Awdurdod Tân unrhyw sylwadau i’w roi ynglŷn â mynedfa i gerbydau Tân a chyflenwad dŵr.

Bydd gan yr Awdurdod Tân gyfle i gynnig sylwadau ar y mesuriadau diogelwch tân yn ystod y broses Ymgynghori Rheoliadau Adeiladu.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, cysylltwch â’r Swyddog Cydymffurfiaeth.

Gwarchod y Cyhoedd:

Diolch am ymgynghori â'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ynglŷn â'r uchod.

Rydym wedi ystyried y cais cynllunio, ac mae ein sylwadau fel a ganlyn:

Mae angen rhagor o wybodaeth ar gyfer y gwaith trin arfaethedig, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Tystiolaeth i ddangos na ellir cysylltu'r datblygiad â'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

Manylion nifer yr eiddo a'r ystafelloedd gwely a gynigir, ynghyd â chyfrifiad o faint o garthffosiaeth y bydd y datblygiad yn ei gynhyrchu bob dydd.

Gwneuthuriad, manyleb dylunio, cyfaint a manylion gollyngiadau mewn perthynas â ffos ddŵr ar gyfer y gwaith trin preifat.

Cynllun Rheoli sy'n nodi sut y bydd y system yn cael ei rheoli a'i chynnal dros oes y datblygiad.

Gwaith a chanlyniadau profion treiddio yn unol â 'Dogfen gymeradwy H, Draenio a Gwaredu Gwastraff, Rheoliadau Adeiladu 2010, H2.'

Llun cywir, anodedig a chynllun lleoliad ar gyfer y cae *soakaway*/draenio.

Heneb:

Mae'r safle datblygu arfaethedig o fewn Tirwedd Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli (GW) 8, sydd wedi'i rannu'n Ardal Nodweddion Tirlun Hanesyddol (HLCA); mae'r safle arfaethedig yn rhan o gymeriad ardal 'Cefnwlad Aberdaron', sy'n cynnwys ardal wledig yn bennaf, gydag aneddiadau gwasgaredig, adeiladau a bythynnod fferm traddodiadol sydd wedi goroesi, cadwraeth systemau caeau canoloesol, yn ogystal â ffyrdd a thraciau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r llwybr pererindod i Enlli.

Yr argymhelliad allweddol ar gyfer yr HLCA hwn yw: Cadw cymeriad hanesyddol yr ardal, gan gynnwys cadw cloddiau caeau a'u haddasu cyn lleied â phosib a chadw patrymau caeau.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cael ei ystyried yn annhebygol o effeithio ar nodweddion allweddol tirwedd hanesyddol yr ardal. Felly, byddai'r datblygiad arfaethedig ar gyfer lleoli 10 o garafanau yn arwain at gyfraniad niwtral at nodweddion allweddol y Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig a dim effaith ar yr HLCA, ac ni fyddai'r newid defnydd yn effeithio ar arwyddocâd y dirwedd hanesyddol.

Uned Coed:

Mae'r bwriad hwn yn annhebygol o effeithio ar goed presennol. Mae'r gwaith plannu arfaethedig er mwyn gwella yn addas; fodd bynnag, byddwn yn argymell bod y manylebau isod yn cael eu cynnwys:

Dylai *Malus sylvestris* ddod o boblogaeth Abergwyngregyn (prov. 303). Nid oes angen plannu coeden safonol yn y lleoliad hwn, gan fod gwneud hynny'n cynyddu'r risg o drosglwyddo pla a pathogenau, yn lleihau'r tebygolrwydd o sefydlu'n llwyddiannus (yn enwedig ag amodau penodol y safle), ac yn arwain at gost sylweddol uwch i'r datblygwr. Byddai chwip blwydd oed gyda thiwb cwningen di-blastig yn ddigon addas.

Byddwn hefyd yn argymell newid *Salix caprea* safonol gyda *Populus tremula* o ffynhonnell leol. Unwaith eto, nid

| | |
| --- | --- |
| | oes angen i'r rhain fod yn goed safonol, ac yn lle hynny gellir eu plannu fel chwipiau gyda thiwbiau a pholion.<br><br>Mae'r gymysgedd coetir arfaethedig yn addas; fodd bynnag, dylid plannu'r rhain hefyd fel coed ifanc yn hytrach na choed safonol. Byddai'r dull hwn hefyd yn dileu'r angen am fwy o uwchbridd, gwrtaith ac ychwanegion pridd eraill (a all gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth). Byddwn yn argymell ymhellach bod *Malus sylvestris* a *Populus tremula* yn cael eu cynnwys yn y gymysgedd. |
| Adran AHNE: | Mae fferm Tir Glyn wedi ei lleoli yn ardal wledig Uwchmynydd ac yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Hefyd mae’r ardal yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Hyd y gwelir mae’r cais yma yn ail-gyflwyniad o gais C24/0413/30/LL (a dynnwyd yn ôl) am 10 carafán deithiol ar y safle hwn.<br><br>Rhoddir safbwynt ar garafanau teithiol ym mholisi TP9 o Gynllun Rheoli’r AHNE: Gwrthsefyll datblygiadau carafanau newydd ac estyniadau i safleoedd presennol mewn lleoliadau amlwg ar dirlun neu arfordir yr AHNE a hyrwyddo tirlunio safleoedd presennol. Mae hawl cynllunio ar gyfer 39 o unedau ar y maes presennol yn Nhir Glyn, hefyd mae hawl i storio carafanau. Mae’r carafanau yma yn weddol guddiedig gan eu bod ar dir is ac ochor bellaf i’r tŷ a’r adeiladau fferm ond maent yn weladwy o rai hawliau tramwy cyfagos. Y bwriad yw creu safle newydd ar gyfer 10 carafán ar ran o gae amaethyddol ger y fferm ond sydd ddim yn cysylltu gyda’r safle presennol. Byddai’r carafanau mewn rhes ar hyd terfyn cae amaethyddol a’r lôn gyhoeddus. Nodir fod ymdrech wedi ei wneud i warchod nodweddion naturiol, cyflwyno tirlunio newydd, mabwysiadu defnyddiau addas i’r toiledau, cyfyngu ar oleuadau ayb. Mae Gwerthusiad Gweledol a Thirlun wedi ei gyflwyno gyda’r cais. Mae’r ddogfen yn cyfeirio at yr AHNE a chydnabod fod y tirlun dan sylw wedi ei farnu i fod o safon weledol “eithriadol”, fod llygredd goleuadau yn isel a lefelau tawelwch yn uchel. Mae Adran 5 yn asesu'r effaith tebygol ar y tirlun ac yn dod i’r casgliad na fyddai unrhyw newid o bwysigrwydd. Wrth ddod i’r casgliad yma mae peth dibyniaeth ar goed a gwrychoedd i sgrinio’r datblygiad. Byddai coed a gwrychoedd o’r fath yn cymryd nifer o flynyddoedd i sefydlu a bod yn effeithiol. O ran yr asesiad gweledol yn Adran 6 y casgliad yw y byddai effaith y datblygiad yn gyfyngedig. Cytunir na fyddai’r datblygiad yn weledol o rai mannau fel y Llwybr Arfordir a Fferm Cwrt. Fodd bynnag, byddai’r carafanau i’w gweld o rai lleoliadau agos ac nid yw’r Gwerthusiad yn cynnwys rhai |

| | |
| --- | --- |
| | o’r golygfeydd hynny - fel y lôn ger Bodermid Uchaf-Bodermid Isaf a Hawl Tramwy 89.<br><br>Yn gyffredinol mae nifer sylweddol o garafanau teithiol yng nghymuned Aberdaron bellach sydd yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd a gwasanaethau lleol. Byddai yn ddefnyddiol i gynnal arolwg i gael gwybodaeth fanwl am y nifer o garafanau ac ystyried gallu’r ardal i ymdopi â mwy o unedau. |
| Ymgynghoriad cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos ac mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Ni dderbyniwyd unrhyw sylw arall. |

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad/Mwynderau gweledol**

5.1 Gan mai safle yn ymwneud a charafanau teithiol sydd yma, rhaid ystyried y cais yn bennaf o dan ofynion polisi TWR 5 y CDLl sy’n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau o’r fath.

5.2 Mae maen prawf 1 polisi TWR 5 yn datgan y dylai unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol newydd fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad a hefyd dylai fod wedi’i guddio’n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu mewn lle gellir cydweddu’r unedau teithiol yn hawdd i’r dirwedd mewn modd nad yw’n peri niwed sylweddol i’w hansawdd weledol. Nid oes unrhyw amheuaeth fod safle carafanau teithiol wedi sefydlu ers blynyddoedd yn Nhir Glyn. Ond fel y gwelir o’r cynlluniau a gyflwynwyd, tiroedd ar wahân i’r gogledd a’r gogledd ddwyrain o safle’r cais yw’r lleoliadau sefydledig heb unrhyw gyswllt amlwg gyda safle’r datblygiad arfaethedig. Mae safle’r cais ei hun yn dir heb ei ddatblygu i’r de o’r safleoedd yma gyda bwlch amlwg rhwng y safleoedd. Credir felly, yn hytrach nac ymestyn neu addasu tiroedd sydd wedi ei sefydlu eisoes, mi fyddai’r bwriad yn ymestyn y safle ac yn ymledu i mewn i diroedd amaethyddol agored presennol, ymhell tu hwnt i’r safle sefydledig. Nodir yn ogystal er mai carafanau teithiol a fwriedir eu caniatáu i ddefnyddio’r safle, mae cyfeiriad at ddefnydd tymhorol ac felly nid unedau teithiol pur fyddai’n symud yn rheolaidd sydd yn debygol o ddefnyddio’r safle ond unedau fyddai’n cael eu cadw yn barhaol dros gyfnod y tymor, ac felly mi fyddai’r edrychiad yn debygol o fod yn barhaol a di-newid yn ystod y cyfnod o ddefnydd tymhorol yma.

5.3 Mae’r tir dan sylw yn cynnwys gwrych sefydledig ar hyd ei ffin orllewinol fyddai’n gwarchod edrychiadau i mewn ac allan o safbwynt y ffordd gyhoeddus. Mae’n bur debyg, fel y dangosir yn y wybodaeth a gyflwynwyd, mai cyfyngedig fyddai edrychiadau o ymhellach draw i gyfeiriad y gorllewin, gogledd a dwyrain hefyd o ganlyniad i’r gwrych yma ynghyd a gwrychoedd a choed cyfagos eraill. Fodd bynnag, mae’n debyg y byddai’r safle yn fwy gweladwy o fannau i’r de yn enwedig felly o diroedd uwch i’r cyfeiriad yma a chyfres helaeth o lwybrau cyhoeddus gan gynnwys llwybrau 81, 89, 77, 78, 87 a 75. Nodir yn ogystal fod sylwadau’r uned AHNE yn datgan “*byddai’r carafanau i’w gweld o rai lleoliadau agos ac nid yw’r gwerthusiad yn cynnwys rhai o’r golygfeydd hynny - fel y lôn o Bodermid Isaf i Bodermid Uchaf a Hawl Tramwy 89”*. Ni chredir y gellid dweud y byddai’r datblygiad yn cydweddu’n llwyr gyda’r dirwedd (hyd yn oed os derbynnir

fod y tirlunio a gynhigir gan gynnwys y goedlan arfaethedig a'r tirlun presennol yn ddigonol i'w warchod).

5.4 Mae'r Asesiad Tirwedd a gyflwynwyd yn nodi mai dim ond o nifer cyfyngedig o fannau lleol y gellir gweld y safle presennol ac oherwydd y topograffi tonnog a'r gwrychoedd aeddfed yng nghyffiniau'r safle, mae golygfeydd i mewn i'r safle yn gyfyngedig ac mae unrhyw olygfeydd o'r fath yn aml yn cael eu hidlo gan nodweddion megis coed neu dopograffeg. Mae'n bosib gyda synhwyraidd gweledol cymedrol, bod yr ardal yn gallu derbyn mân newid heb niwed arwyddocaol i'w nodweddion nodedig ac y byddai unrhyw effaith yn fach yng nghyd-destun y dirwedd ehangach. Dywed yr asesiad y bydd plannu coed a gwrychoedd newydd a gwella gwrychoedd presennol yn cryfhau nodweddion presennol ac yn lliniaru unrhyw effaith weledol. Ni fyddai'r gwaith tir a'r plannu yn debygol o fod yn ddigonol i guddio'r carafanau yn llwyr am rai blynyddoedd, os o gwbl o rai edrychiadau.

5.5 Mae Polisi PCYFF 4 y CDLl yn nodi y dylai pob cynnig integreiddio gyda'r hyn sydd o'i gwmpas ac y gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio. Yn ychwanegol, mae polisi TP9 o Gynllun Rheoli'r AHNE yn nodi fod angen *"Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE".* Mae polisi AMG 1 yn nodi fod angen i ddatblygiad *"ble'n briodol, i gynigion sydd o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, roi ystyriaeth i'r Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol berthnasol*". Ni ystyrir y byddai caniatáu ymestyn y safle carafanau presennol i diroedd ar wahân ac agored i'r safle sefydledig a'r holl waith tir a fyddai ynghlwm a hynny ar y safle yma yn gymorth i gynnal, gwella nag adfer cymeriad yr AHNE. Yn wir oherwydd ei leoliad ar dir ar wahân sydd heb ei ddatblygu, ystyrir y byddai'r bwriad yn anorfod yn creu niwed ychwanegol i dirwedd yr AHNE ac a fyddai'n rhannol weladwy o'r ardal oddi amgylch. Sylweddolir y byddai i'w weld o gyfeiriad y de gyda chefnlen adeiladau amaethyddol tu cefn a'r safle carafanau ymhellach wedyn, fodd bynnag fe fyddai caniatáu'r cais hwn yn lledaenu effaith niweidiol y safle presennol ar y dirwedd. Byddai datblygiad o'r natur a'r raddfa hwn felly yn debygol o sefyll allan yn ymwthiol yn y tirlun gan achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd ac ystyrir fod y bwriad felly yn groes i Bolisi TWR 5, PCYFF 4 a Pholisi AMG 1 y CDLL.

5.6 Credir ei bod yn briodol nodi yma fod y cais blaenorol a gyflwynwyd ac a ganiatawyd yn cael ei hyrwyddo fel cais a oedd oherwydd cyfyngu lleiniau ychwanegol o fewn ffiniau caeau'r safle sefydledig, yn ymatal a chyfyngu unrhyw effaith weledol i'r ardal sefydledig yma yn unig. O ganlyniad, roedd yr angen i ymestyn ffin y safle carafanau gyda'r potensial o gael effaith gweledol ychwanegol ar yr AHNE yn cael ei ddileu. Bellach, credir gyda'r cais presennol y byddai'r safle yn ymestyn tu hwnt i ffiniau a thiroedd sefydledig y safle carafanau a'i fod o ganlyniad yn groes i'r honiad blaenorol.

5.7 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae'r bwriad yn ymwneud ag ymestyn safle carafanau presennol. Fodd bynnag o ran ei leoliad a'i faint ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi AT 1 CDLl.

5.8 Yn y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais, fe honnir mai tir pori cymharol wael gyda defnydd isel yw safle'r datblygiad arfaethedig. Er hynny, yn ôl mapiau cyfredol Llywodraeth Cymru, mae'n cael ei adnabod fel tir cofrestredig 3a. Mae paragraff 3.58 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi mai *"tir amaethyddol gradd 3a yn ogystal â dosbarthiadau 1 a 2 yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol*

*(ALC)16 sydd yn cael ei ystyried fel y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol"* tra bod paragraff 3.59 yn nodi

*"Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf".*

5.9 Yn yr ymateb i'r ymholiad cyn cyflwyno cais, codwyd y mater hwn ac fe nodwyd y byddai angen cyfiawnhad dros ddatblygu tir amaethyddol o'r ansawdd hwn a pha gamau fyddai'n cael ei gymryd i amddiffyn ansawdd y tir ar gyfer y dyfodol. Mae polisi Strategol PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt, yn nodi:

*"Er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond pan ellir dangos gyda thystiolaeth briodol eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn a ganlyn ac wedi ymateb yn briodol iddynt"*

gyda maen prawf 6 yn cadarnhau fod rhaid:

*"Diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol ac amaethu lleol er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd".*

5.10 Er bod yr asiant yn nodi mai tir gwael yw'r tir dan sylw, nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno dros y golled o dir o ansawdd 3a. Mae cyfeiriad at y ffaith y byddai'r gwaith i ddatblygu'r safle yn hawdd i'w newid yn ôl pe byddai'r sefyllfa yn newid, ac mae'n bur debyg y byddai gwaith o waredu lleiniau parhaol yn gallu cael ei wneud yn weddol rwydd. Ond o ystyried fod y gost o wneud y newidiadau sef creu 10 llain barhaol, gwaith tirlunio, codi adeilad parhaol fel adnodd ymolchi gyda draenio bwriedig a'r gwaith i'r fynedfa, ni chredir y byddai hyn yn ddatblygiadau fyddai'n debygol o gael ei gwrthwneud heb fynd i gostau diangen ychwanegol. Nid yw'r awdurdod cynllunio wedi ei argyhoeddi yn llwyr yn yr achos yma, ac felly ni chredir fod y bwriad fel y cyflwynwyd yn dderbyniol a thrwy hynny yn groes i ofynion maen prawf 6 polisi PS 6 ynghyd a chyngor a roddir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn benodol felly, paragraffau 3.58 a 3.59.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.11 Ar wahân i'r ddau dŷ presennol ar safle Tir Glyn, ceir tai annedd yng nghyffiniau'r cais yn bennaf i gyfeiriad y dwyrain, de-ddwyrain a'r de. Er yn ymledu tu hwnt i safle sefydledig presennol y maes carafanau, ni ystyrir y byddai safle o 10 carafán ychwanegol yn golygu creu effaith sylweddol fwy ar y tai agosaf na'r hyn a phrofir yn bresennol. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol amlwg i fwynderau'r gymdogaeth leol ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi PCYFF 2 CDLL.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Mae pryderon wedi codi mewn perthynas â'r brif fynedfa i'r safle arfaethedig. Yn benodol, ystyrir bod potensial i fwd a deunydd rhydd gael eu cludo i'r briffordd gyhoeddus, ynghyd â'r posibilrwydd o ddifrod i ymylon y ffordd o ganlyniad i'r cynnydd mewn traffig fyddai'n defnyddio'r fynedfa. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ac er budd diogelwch y briffordd, mae

sylwadau'r Uned Priffyrdd yn gofyn i'r ymgeisydd uwchraddio'r fynedfa i safon briodol a boddhaol a darparu manylion y gwaith arfaethedig, yn ogystal â chyfyngu'r ail fynedfa i ddefnydd cerddwyr a cherbydau'r gwasanaethau brys yn unig. Byddai hyn yn helpu i reoli symudiadau traffig i mewn ac allan o'r safle, gan sicrhau bod pob traffig arferol yn defnyddio'r brif fynedfa sydd wedi'i huwchraddio i safon dderbyniol. O ganlyniad i wrthwynebiad yr Uned Briffyrdd, ni ofynnwyd i'r ymgeisydd am wybodaeth bellach oherwydd y gwrthwynebiad i egwyddor y datblygiad yma.

5.13 O ganlyniad i'r uchod, ystyrir fod y bwriad yn annerbyniol ac yn groes i ofynion polisi TRA 4 o'r CDLl sy'n cadarnhau y gwrthodir cynigion a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd.

**Materion bioamrywiaeth**

5.14 Mae mwyafrif safle'r datblygiad arfaethedig yn rhan o safle bywyd gwyllt Porth Meudwy gyda rhan ddwyreiniol y safle yn cynnwys llethr cymharol serth i ddyffryn bychan islaw sydd yn cynnwys cwrs dŵr bychan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn eu hymateb i'r cais yn nodi nad oes digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais er mwyn gallu ystyried yr effeithiau posibl yn ddigonol ar nodweddion y safleoedd gwarchodedig, ac yn benodol, i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r datblygiad yn cynnig gosod system trin carthion preifat (STCP), ond mae'r dull gollwng arfaethedig yn aneglur ar hyn o bryd. Nodir hefyd fod ffynnon wedi'i nodi ar un o'r cynlluniau a gyflwynwyd. Ni ddylai'r cae draenio gael ei leoli'n agos at y nodwedd hon, ac mae angen cadarnhad o bellteroedd gwahanu priodol. Pe bai gollwng i gwrs dŵr yn cael ei gyfiawnhau, bydd angen nodi union leoliad y pwynt gollwng a'i ddangos yn glir ar fap. Yn ogystal, gan fod y cwrs dŵr derbyniol wedi'i ddosbarthu fel bach/anhysbys, byddai angen gwybodaeth bellach i ddangos bod ganddo gapasiti digonol i ymdopi â gollwng o'r natur a'r cyfaint hon, pe bai'r cynllun yn cynnig gollwng i'r cwrs dŵr. Yn ogystal, nid oes unrhyw wybodaeth yn dangos sut na ble y caiff gwastraff o'r carafanau teithio ei waredu. Nid yw gorsafoedd trin carthion preifat (STCP) yn addas i drin gwastraff cemegol o garafanau. Rhaid i Uned Gwaredu Cemegol (UGC) ddraenio i danc seiliedig neu bydew sych (cesspit), gan fod natur wenwynig yr efflwnt yn golygu na ellir ei ollwng i'r ddaear nac i gwrs dŵr.

5.15 Ni aethpwyd i ofyn am y wybodaeth yma oherwydd y gwrthwynebiad i egwyddor y datblygiad, ac felly fel y mae, oherwydd y pryderon hyn, mae CNC yn gwrthwynebu'r cais fel y cyflwynwyd oherwydd bod gwybodaeth annigonol wedi'i darparu i gefnogi'r cynnig.

5.16 Mae'r diffyg gwybodaeth yma yn golygu na ellir asesu'r bwriad yn llawn o ran ei effaith ar yr Ardal Gadwraeth Arbennig sydd yn ei hun yn rheswm dros wrthod cynnig o'r fath. Mae'r oblygiadau, boed hynny yn real neu beidio, yn faterion na ellir ei ystyried yn llawn fel y mae ac oherwydd hynny mae'n methu bodloni gofynion sylfaenol polisi PS 19 a AMG 5.

5.17 Yn unol â newidiadau deddfwriaethol diweddar i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r angen i gyflwyno Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, cyflwynwyd datganiad ac i bwrpas bodloni'r PCC o safbwynt yr agwedd benodol yma, credir fod hyn wedi ei wneud yn yr achos yma.

**Materion ieithyddol**

5.18 Nodir fod yna rhai mathau penodol o ddatblygiadau ble fydd gofyn i'r bwriad fod yn cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae'r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o'r CDLl ar y

Cyd ynghyd a Diagram 5 o'r CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (CCA). Nid yw'r datblygiad dan sylw yn un sydd yn cwrdd gydag un o'r trothwyon ym Mholisi PS 1 CDLL.

5.19 Gan eithrio'r datblygiadau sy'n cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad/Asesiad ar Effaith Iaith Gymraeg a nodir ym Mholisi PS1, fe roddir arweiniad o ran y mathau o geisiadau perthnasol ble fo angen rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn Atodiad 5 (Y Drefn Sgrinio) o'r CCA (rhan Ch i Dd). Mae'r arweiniad a gynhwysir o fewn Atodiad 5 yn nodi y dylai pob datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i'r iaith. Fe noda'r ymgeisydd y byddai'r datblygiad yn fodd o sicrhau fod y fferm a'r safle carafanau yn parhau yn economaidd hyfyw a chynaliadwy er mwyn sicrhau fod y busnes yn parhau yn nwylo siaradwyr Cymraeg Iaith gyntaf sydd wedi bod yma ers cenedlaethau. Er na chyflwynwyd datganiad ieithyddol ffurfiol, wrth ystyried natur cymharol fechan y datblygiad, cytunir ei fod yn annhebygol y byddai effaith arwyddocaol ychwanegol yn deillio o'r datblygiad hwn ar gymeriad ieithyddol y gymuned.

**Materion Draenio a Llifogydd**

5.20 Yn unol â gofynion paragraff 7.6 o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol, rhaid cyflwyno Strategaeth Draenio fel rhan o gais i amlinellu'r cynllun draenio ar gyfer dwr wyneb o'r safle, oni bai fod cais ar wahân wedi ei wneud i'r corff cymeradwyo sef Uned Draenio Tir Cyngor Gwynedd. Nid oes datganiad draenio wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais, ac mae Uned Draenio Tir wedi cadarnhau eu bod yn gwrthwynebu'r cais oherwydd diffyg gwybodaeth. Ni aethpwyd i ofyn am y wybodaeth yma oherwydd y gwrthwynebiad i egwyddor y datblygiad. Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais er mwyn sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion rhan 7 o NCT 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol, ac felly ystyrir ei fod yn groes i'r polisi yma.

5.21 Mae safle'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd 2/3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae Uned Draenio Tir wedi cadarnhau, yn unol â'r cyngor a roddir o fewn Adran 6.1 Nodyn Cyngor Technegol 15 fod angen Asesiad Risg Llifogydd ar gyfer y bwriad er mwyn dangos nad yw'r datblygiad arfaethedig mewn perygl annerbyniol o lifogydd dwr wyneb, a bod mesurau addas wedi'u cynnwys i gynyddu gwydnwch y datblygiad i lifogydd. Yn ogystal, mae sylwadau'r Uned Draenio Tir yn awgrymu y dylai'r ymgeisydd ystyried symud y ddwy lain isaf fel eu bod tu hwnt i ffin y parth llifogydd yma.

5.22 Ni aethpwyd i ofyn am Asesiad Canlyniad Llifogydd oherwydd y gwrthwynebiad i egwyddor y datblygiad, er hynny, ni ellir fod yn sicr na fydd y bwriad mewn perygl annerbyniol o lifogydd dwr wyneb ac felly mae'r cais fel y cyflwynwyd yn groes i ofynion Adran 6.1 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.

5.23 Yn ogystal, mae paragraff 10.19 o'r NCT yn cadarnhau'r isod ar gyfer ceisiadau cynllunio o fewn parth 2:

"Dim ond pan fydd y safle wedi cael ei neilltuo mewn Cynlluniau Datblygu mabwysiedig y bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau bregus iawn ar dir maes glas yn briodol. Bydd angen i gynigion ar gyfer ailddatblygu ar dir llwyd ar unrhyw lefel bregusrwydd helpu strategaeth y Cynllun Datblygu i adfywio anheddiad sydd eisoes yn bodoli neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol, a bod yn gyson â'r strategaeth honno. Pan fydd cynigion ar gyfer ailddatblygu yn cynnwys defnydd preswyl, dylai awdurdodau lleol sicrhau na fydd defnyddiau o'r fath yn digwydd ar lefel llawr gwaelod"

Ac mae paragraff 10.20 yn cadarnhau'r isod ar gyfer ceisiadau cynllunio o fewn parth 3:

"Ym Mharth 3, ni ddylid neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd bregus iawn oherwydd nid ystyrir bod perygl a chanlyniadau llifogydd yn dderbyniol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau."

Mae'r bwriad yn ddatblygiad newydd bregus iawn ac yn groes i ofynion polisi TWR5 o'r CDLl, ac yn cynnwys defnydd preswyl ar lefel llawr gwaelod ac felly mae'r bwriad yn groes i ofynion y ddau ran yma o'r NCT.

**Materion eraill**

5.24 Fe welir o ymateb y Swyddog Trwyddedu nad oes darpariaeth i'r anabl yn cael ei gynnig o fewn yr adeilad toiledau/cawodydd newydd a bod rhaid arddangos darpariaeth ar gyfer yr anabl o fewn y cynllun arfaethedig. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn cydnabod hyn ac fe honnir mai ymgais yw hyn er mwyn cadw maint a swmp yr adeilad arfaethedig yn llai tra bod toiled hygyrch yn cael ei ddarparu ym mhrif adeilad toiledau'r safle sydd eisoes yn darparu ar gyfer ymwelwyr anabl i'r safle. Mewn ymateb i hyn, er yn cydnabod ymgais i leihau maint yr adeilad arfaethedig a thrwy hynny ei effaith weledol, ni chredir y byddai'r cynnig yn dderbyniol nac yn ymarferol i ddefnyddwyr anabl i'r safle arfaethedig trwy ofyn iddynt ddefnyddio adnoddau sydd cryn bellter i ffwrdd heb lwybr tramwy amlwg a hygyrch i gyrraedd ato. Er yn fater ar wahân i'r drefn Cynllunio rhaid ystyried heb adnoddau o'r fath, mae'n debygol y byddai derbyn trwydded newydd yn broblemus ac y byddai angen cyflwyno cais cynllunio pellach er mwyn diwygio'r adeiladau a/neu'r safle.

## 6. Casgliadau:

6.1 Mae Polisi TWR 5 y CDLl yn gofyn i unrhyw ddatblygiad carafanau teithiol gydweddu'n briodol gyda'r dirwedd mewn modd nad ydyw'n peri niwed i'w hansawdd gweledol. Fe fyddai'r datblygiad hwn yn anorfod yn niweidiol i'r tirlun hwn o fewn yr AHNE. Fe ystyrir felly bod y bwriad yn groes i faen prawf 1 Polisi TWR 5 y CDLL.

6.2 Wrth gydnabod y pwyntiau a wnaethpwyd gan yr ymgeisydd yn yr wybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwerthusiad tirlun a gyflwynwyd, nid yw'r rheini'n newid y ffaith bod y safle yn weledol yn y dirwedd a byddai'r estyniad sydd dan sylw mewn lleoliad cwbl ar wahân i'r safle carafanau teithiol presennol ger y fferm. Ni chredir y byddai'r estyniad i'r safle wedi'i guddio'n llwyr gan nodweddion presennol y dirwedd ac ni ystyrir y byddai'r bwriad yn integreiddio yn dda gyda'r hyn sydd o'i amgylch. Yn sgil hyn ni ystyrir y byddai'r bwriad yn gwneud dim i gynnal, gwella neu adfer cymeriad cydnabyddedig yr AHNE a bod y bwriad felly yn groes i ofynion Polisi TWR 5, PCYFF 4 ac AMG 1 CDLL.

6.3 Mae pryderon wedi codi mewn perthynas â'r brif fynedfa i'r safle arfaethedig. Yn benodol, ystyrir bod potensial i fwd a deunydd rhydd gael eu cludo i'r briffordd gyhoeddus, ynghyd â'r posibilrwydd o ddifrod i ymylon y ffordd o ganlyniad i'r cynnydd mewn traffig fyddai'n defnyddio'r fynedfa. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn ac er budd diogelwch y briffordd, mae sylwadau'r Uned Priffyrdd yn gofyn i'r ymgeisydd uwchraddio'r fynedfa i safon briodol a boddhaol a darparu manylion y gwaith arfaethedig, yn ogystal â chyfyngu'r ail fynedfa i ddefnydd cerddwyr a cherbydau'r gwasanaethau brys yn unig. Byddai hyn yn helpu i reoli symudiadau traffig i mewn ac allan o'r safle, gan sicrhau bod pob traffig arferol yn defnyddio'r brif fynedfa sydd wedi'i huwchraddio i safon dderbyniol. Ystyrir felly fod y bwriad yn annerbyniol ac yn groes i ofynion polisi TRA 4 o'r CDLl sy'n cadarnhau y gwrthodir cynigion a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd.

6.4 Nid oes datganiad draenio wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais, ac felly nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion rhan 7 o NCT 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol, ac felly ystyrir ei fod yn groes i'r polisi yma.

6.5 Mae safle'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd 2/3 (Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach) fel y dangosir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Nid oes Asesiad Risg Llifogydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ac felly ni ellir fod yn sicr na fydd y bwriad mewn perygl annerbyniol o lifogydd dwr wyneb ac felly mae'r cais fel y cyflwynwyd yn groes i ofynion Adran 6.1 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.

6.6 Mae'r sefyllfa economaidd yng nghefn gwlad ac ynghlwm ac amaethyddiaeth yn gwbl wybyddus o ran difrifoldeb sicrhau hyfywdra economaidd. Mae'r egwyddor o ddatblygiad newydd fyddai'n cyfrannu tuag at wella'r economi yn lleol felly yn cael ei gefnogi yn llwyr. Er hynny, nid yw hyn yn golygu y gellir caniatáu unrhyw gynnig a gyflwynir a rhaid i gynigion gydymffurfio yn llwyr gyda gofynion perthnasol polisïau sydd yn gwarchod ardal hynod sensitif fel yma rhag datblygiadau newydd annerbyniol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i wrthod – rhesymau:

1. Ni fyddai'r datblygiad hwn wedi ei leoli o fewn lleoliad anymwthiol fyddai wedi'i guddio'n llwyr gan nodweddion presennol y dirwedd a'r cynnig tirlunio, fe fyddai'n niweidiol i ansawdd y dirwedd ac ni fyddai'n integreiddio'n briodol gyda'i leoliad mewn cefn gwlad agored. Ni fyddai'r bwriad ychwaith yn ychwanegu at gynnal, gwella neu adfer cymeriad cydnabyddedig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Fe ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion Polisïau TWR 5, PCYFF 4 ac AMG 1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

2. Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), i wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Nid yw'r cynnig felly'n dangos y byddai'r bwriad yn gwarchod na gwella'r amgylchedd naturiol ac felly mae'r cais yn groes i ofynion Polisi PS 19 a AMG 5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

3. Ni chyflwynwyd tystiolaeth ddigonol fel rhan o'r cais cynllunio i ddangos fod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r effaith o golli tir amaethyddol gorau a mwyaf aml bwrpas. Ystyrir felly fod y cais yn groes i ofynion maen prawf 6 Polisi PS 6 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 ynghyd a'r cyngor a roddir ym mharagraffau 3.58 a 3.59 Polisi Cynllunio Cymru.

4. Mae'r bwriad fel y cyflwynwyd yn golygu defnyddio mynedfa israddol a defnydd o ail fynedfa heb ei gyfyngu. Ystyrir fod y bwriad yn annerbyniol ac yn groes i ofynion polisi TRA 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 sy'n cadarnhau y gwrthodir cynigion a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd.

5. Nid oes datganiad draenio wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais, ac felly nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion rhan 7 o NCT 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (2025) o ran darparu system draenio gynaliadwy.

6. Mae'r safle wedi ei leoli yn rhannol o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 ar gyfer dwr gwyneb a chyrsiau dwr bychain fel y nodir gan y 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio'. Nid oes Asesiad o Ganlyniad Llifogydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ac mae'r cais yn golygu darparu datblygiad newydd bregus iawn ar lefel llawr gwaelod ac felly nid yw'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion paragraffau 6.1, 10.19 na 10.20 o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (2025) sy'n sicrhau nad yw datblygiadau bregus iawn yn cael eu lleoli o fewn parthiau llifogydd ble byddai'n achosi risg i fywyd.